

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 20.03.24 am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presenol: David Griffiths - Cadeirydd (DG), Geraint Edwards – Is-gadeirydd (GE), Huw Davies (HD), Keith Carroll (KC), Geraint Micah (GM), Jen Warne (JW), Nikki Roberts (NR), Jane Lawrence (JL), Meg Griffiths (MG), Jane Jenkins – Clerc (JJ).

1. **Ymddiheuriadau:** Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Ian Williams.

2. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
Datgan Diddordeb: Dim.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14.02.24 yn gywir.
Cynnig: GE **Eiliwyd:** HD **Arwyddwyd:** DG

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 14.02.24:**

- a) **Llwybr Cyhoeddus/Ffordd Ddiddosbarth (Sunbeach)** – GM wedi siarad gyda GLASS a awgrymodd fod y Cyngor Cymuned yn rhoi cwyn i Gyngor Gwynedd – mae hyn eisoes wedi ei wneud ac wedi arwain at ymateb anfoddhaol. Y cam nesaf yw gwneud cwyn i'r Ombwdsmon, ond ni all y Cyngor Cymuned wneud hyn – mae angen iddo fod yn unigolyn a bydd GM yn ymchwilio ymhellach i hyn. Gofynnwyd i JJ ymateb i'r e-bost gan Gyngor Gwynedd gan ddweud bod eu hymateb yn anfoddhaol ac nad yw'r Cyngor Cymuned yn cytuno â'i gynnwys.
- b) **Cais Cynllunio NP/69/56M (Sunbeach)** – JJ yn dweud bod hwn yn dal heb ei gwblhau hyd nes y cyflwynir y dogfennau sydd heb eu penderfynu. Cytunwyd y dylem yn awr fonitro'r sefyllfa hyd nes y bydd yn mynd gerbron y Pwyllgor Cynllunio.
- c) **Cae Chwarae Llwyngwril – Spica a Matting** – GE wedi mynd a'r darn y Spica yn barod i'w roi yn y Cae Chwarae. O ran y matiau, cytunwyd y dylai JJ edrych i mewn i brisiau, ac unwaith bydd adroddiad eleni wedi'i gwblhau gellir gwneud rhywfaint o'r gwaith sydd angen ei wneud. Mae cwmni GL Jones (Gwynedd) yn un cyflenwr ond JJ i chwilio am brisiau eraill hefyd. JJ i edrych i mewn i grantiau all fod o gymorth hefyd. DG i siarad gyda Dilys Williams am gymorth ynglyn a ceisio am grantiau, gan ei bod hi'n wybodus yn y maes yma.
- d) **Dargyfeiriad Afon Llwyngwril (mynediad i'r traeth)** – JJ i edrych allan i'r fanyleb – dim newid i'r spec gwreiddiol, a dechrau cael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith. Gellid cael dyfynbrisiau gan Mei Black, Alan Lloyd, Kevin Williams a Geraint Micah.
- e) **Materion Afon Gwril (Dŵr Cymru)** - Cadarnhaodd JJ fod ateb wedi ei dderbyn (e-bost) gan Dwr Cymru. HD yn hapus i gwrdd â'u cynrychiolydd i drafod ymhellach. JJ i roi rhif ffôn HD iddynt fel y gellir cysylltu'n uniongyrchol.
- f) **Dyfyniadau/Tendrau** – Gofynnwyd i JJ i ail anfon e-byst i'r rhai nad oedd wedi ymateb hyd yma, oherwydd y dyddiad cau i gael y prisiau i mewn oedd 10.04.24.
- g) **IRPW** – gohirio trafod tan y cyfarfod nesaf – sef Mis Ebrill.
- h) **Gwaith Ffordd rhwng Llwyngwril a Friog (Cones)** – JJ yn rhoi gwybod am yr e-bost a dderbyniwyd ynglyn ar cwyn yma a bod y materion "gyrru peryglus" wedi'u trosglwyddo i Heddlu Gogledd Cymru. Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd and oedd dim camau pellach i'w cymryd gan Gyngor Gwynedd.

i) **Diffibriliwr** – Roedd pawb yn gytun y dylem dderbyn cynnig caredig Mike Senior o’r ddau ddiffibriliwr ac y gallai DG a JW sefydlu grŵp i godi arian ar gyfer y bocsys a’r ategolion angenrheidiol. DG i sefydlu ble y gellid eu gosod yn y pentref a JJ wedyn i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd, Adran Goleuadau Stryd, i ganfod a oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad ac a fyddent yn gallu cyflenwi'r trydan a'r polion. JJ i gysylltu â Mike Senior i gadarnhau bod y Cyngor Cymuned am dderbyn y ddau diffibriliwr.

j) **Adolygiad Tâl Blynyddol y Clerc** – gofynnwyd i JJ adael y cyfarfod tra bod y Cyngorwyr yn trafod ac yn penderfynnu.

5. Gohebiaeth wedi eu derbyn:

a) Nifer o lythyrau wedi eu derbyn yn diolch am y cyfraniadau arianol a wnaed. ‘Roedd dau rodd heb eu cydnabod, ac nid oeddent yn dangos ar y cyfrif banc, felly JJ i holi os oeddent wedi derbyn y sieciau ai peidio.

6. Materion Cynllunio: Dim.

7. Adroddiad Ariannol:

a) **Adroddiad Ariannol Ionawr 2024** – Cytunwyd bod hwn yn gyfrif cywir ac fe’i cymeradwywyd. Cynnig: GE Eilio: JW Arwyddwyd: DG

b) **Taliadau** – 3 sic i’w harwyddo. Tâl y Clerc, Treth Incwm - HMRC a ffioedd cyfieithu.

c) **Adolygiad Blynyddol o'r Polisi Rhoddion** – Cytunodd pawb y dylai hwn aros yr un fath - dim newidiadau Arwyddwyd: DG.

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:

Dyweddodd DG ei fod wedi mynychu cyfarfod Y Ganolfan. ‘Roedd yr Eglwys wedi rhoi rhai byrddau i’r Ganolfan yn rhad ac am ddim (ar yr amod y gallent eu benthyg yn y dyfodol os angen), hefyd efallai fod gan yr Eglwys gylllyll a ffyrac dros ben y gallai Y Ganolfan eu cael hefyd.

Materion eraill a drafodwyd oedd y byrddau Ping-Pong a paent ar y byrddau wedi i’r grwp celf eu defnyddio.

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol: Dim yn bresennol.

10. Unrhyw Fater Arall:

a) Dywedodd KC y byddai yn hoffi i'r Cyngor Cymuned wneud mwy i'r pentref ac awgrymodd y dylid dacluso’r ardal wrth ymyl y toiledau cyhoeddus yn Llwyngwriil drwy roi gravel yn lle gwair yno a bod angen rhoi sylw i'r ardal o laswellt wrth ymyl y groesfan rheilffordd sy'n arwain i Ffordd Celynin hefyd.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw’r naill na’r llall o’r darnau hyn o dir yn perthyn i’r Cyngor Cymuned ac felly nid oedd hyn yn rhywbeth y gall aelodau y Cyngor Cymuned wneud dim yn ei gylch.

b) Dangosodd GE luniau o'r Coed Nadolig alwminiwm oedd yr aelodau wedi trafod eisoes ar gyfer Llwyngwriil a Rhoslefain, i gael eu harchebu efallai at y dyfodol, a dywedodd y byddai yn gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â phrisiau.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: - Nos Fercher - 10.04.24 - am 7 o’r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwriil

Arwyddwyd

Cadeirydd **Dyddiad**